**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-

**Siambr y Cyngor**
Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple

**Zoom**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd P Jarman |

## Swyddogion oedd yn bresennol:-

**Siambr y Cyngor**
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol:-

**Zoom**
Y Cynghorydd R Bevan

**141 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

1) Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams wedi datgan buddiant personol mewn perthynas â Chais 21/1102 - Adeilad i hwyluso'r broses o adleoli'r iard stoc drig. (Derbyniwyd y Cynllun Rheoli Aroglau ar 30 Medi 2021, Derbyniwyd Datganiad gan y Milfeddyg a chynlluniau diwygiedig, gan leihau maint yr adeilad a gwella'r dirwedd ar 18 Hydref 2021), Y cae ger Croft Yr Haidd, Castellau, Beddau, Pont-y-clun, CF72 8LQ

"Yn ystod fy nghyfnod fel Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (2012-13), roedd yr ymgeisydd wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer Elusen y Maer.

2) Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Chais 19/1082 – Cais materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer Cam 3 a Cham 4 Parc Llanilid (a gyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol (hybrid) 10/0845/34) i gynnwys 494 uned

breswyl a gwaith seilwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a/neu wybodaeth ychwanegol/wedi'i diweddaru ar 24/06/21 (ffurflen gais wedi'i diweddaru, cynllun safle ('K'), cynlluniau a strategaeth tirlunio, cynllun Thetford a chynllun uned GAD 1 ystafell wely); 20/07/21 (cynllun safle ('L')); 22/07/21 (datganiad dylunio trefol wedi'i ddiweddaru); 27/07/21 (Cynllun Symud wedi'i ddiweddaru); 03/08/21 (cynlluniau peirianneg a'r Adroddiad Sŵn wedi'u diweddaru); 28/09/21 (cynlluniau wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r mathau newydd o dai); 12/10/21 (cynlluniau tirwedd wedi'u diweddaru); 18/11/21 (cynllun safle ('N')) a 23/11/21 (cynlluniau peirianneg diwygiedig/wedi'u diweddaru, strategaeth tirwedd a chynlluniau plannu), Tir ar hen safle glo brig a thir i'r gogledd o'r A473, Llanilid.

“Mae’r cwmni rwy’n gweithio iddo ar hyn o bryd yn gweithio ar Gam 1 datblygiad Parc Llanilid ac mae'n bosibl y bydd y cwmni yn rhan o waith datblygu'r safle yn y dyfodol yn ystod Camau 3 a 4”

**142 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**143 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**144 COFNODION 04.11.21**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2021 yn rhai cywir.

**145 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**146 CAIS RHIF: 21/1102**

**Adeilad i hwyluso'r broses o adleoli'r iard stoc drig (Derbyniwyd y Cynllun Rheoli Aroglau ar 30 Medi 2021, Derbyniwyd Datganiad gan y Milfeddyg a chynlluniau diwygiedig, gan leihau maint yr adeilad a gwella'r dirwedd ar 18 Hydref 2021), Cae yn Croft Yr Haidd, Castellau, Beddau, Pont-y-clun, CF72 8LQ**

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal Ymweliad Safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, er mwyn ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar olygfa'r safle, y priffyrdd lleol a'r amgylchedd.

**147 CAIS RHIF: 21/0942**

**Estyniad i gwrtil yr ardd a chreu llawr caled, Merrivale, Ffordd Llwydcoed, Aberdâr**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr A Cable (Ymgeisydd)
- Mr D Wesley (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr A Cable, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Amlinellodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan drigolyn lleol a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl iddo gael ei ystyried **PENDERFYNWYD** gohirio'r penderfyniad i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn caniatáu trafodaethau pellach rhwng y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu a'r ymgeisydd i egluro cwmpas y cais.

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen y cyfarfod (3:33pm)

**148 CAIS RHIF: 21/1310**

**Gwaith dymchwel ac ailddatblygu i ddarparu anheddau preswyl a gwaith cysylltiedig. (Derbyniwyd Adroddiad Cofnodi Adeilad Hanesyddol ar 22 Tachwedd 2021), Ysgol Fabanod Pen-y-graig, Heol Hendrecafn, Pen-y-Graig, Tonypandy.**

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis fuddiant personol mewn perthynas â'r Cais 21/1310

"Persimmon yw contractwr y datblygiad yma"

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr D Green (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau ar y cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth **PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu yn ddarostyngedig i gytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw fel unedau fforddiadwy am byth, i'r diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd.

149 **CAIS RHIF: 21/1330**

**Datblygiad tai fforddiadwy, yn cynnwys 11 fflat 1 ystafell wely a 2 fflat 2 lofft wedi'u haddasu'n llawn ynghyd â maes parcio, gwaith tirlunio a gwaith ategol, 122-126 Stryd Dunraven, Tonypandy, CF40 1QB.**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth **PENDERFYNWYD** caniatáu’r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu yn ddarostyngedig i gytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw fel unedau fforddiadwy am byth, i'r diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd.

150 **CAIS RHIF: 20/1445**

**Amlinelliad ar gyfer datblygiad preswyl (18 annedd). (Derbyniwyd Gwerthusiad Ecoleg Tir Glas ar 15/07/21), Tir y tu ôl i 15 a 16 Ffordd y Rhigos, Hirwaun, Aberdâr.**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan drigolyn lleol a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais i'r Pwyllgor ac ar ôl trafodaeth **PENDERFYNWYD** caniatáu’r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu yn ddarostyngedig i gytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw fel unedau fforddiadwy am byth, i'r diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd.

151 **CAIS RHIF: 21/1328**

**Datblygiad arfaethedig o gyfleuster Gofal Ychwanegol yn cynnwys 60 o fflatiau a gwaith cysylltiedig, gan gynnwys gwaith tirlunio, gwaith draenio cynaliadwy, mynediad a pharcio, Cartref Gofal Dan y Mynydd, Coedlan Bronwydd, Cymer, Porth.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

152 **CAIS RHIF: 21/0274**

**Adeilad ffrâm porth storio/dosbarthu arfaethedig (Uned 2) (Dosbarth Defnydd B8), Rhan 2, Tir Gyferbyn â Storamove, Ystad Ddiwydiannol Parc Aberaman, Aberaman, Aberdâr.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**153 CAIS RHIF: 21/0831**

**Adeiladu maes parcio i ategu'r cyfleusterau parcio a theithio presennol yng Ngorsaf Drenau'r Porth (Parcio a Theithio Cam 3), i gynnwys adlinio ffordd fynediad Ystad Ddiwydiannol Rheola, gwaith draenio, gosod goleuadau stryd, teledu cylch cyfyng a gwaith tirlunio meddal. (Derbyniwyd Datganiad Trafnidiaeth ar 23 Medi 2021, ac Asesiad Risg Cloddio Glo ar 27 Hydref 2021), Heol Rheola/Heol Fynediad Ystad Ddiwydiannol Rheola, Porth.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**154 CAIS RHIF: 21/1250**

**Adeiladu bloc garej newydd yn cynnwys 3 garej sengl, Tir gerllaw Woodville, Heol Pantygraigwen, Pontypridd.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio ei gais i'w Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod gan yr Aelodau bryderon ynglŷn â diogelwch o ran y briffordd a cherddwyr. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a hynny drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath.

(**Nodwch:** Eiliwyd cynnig i ganiatáu'r cais uchod yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, ond roedd yn aflwyddiannus).

**155 CAIS RHIF: 21/1267**

**Trosi eiddo yn 8 fflat stiwdio, gan gynnwys estyniad deulawr y tu cefn i'r eiddo, addasiadau mewnol a chyfleusterau parcio oddi ar y stryd y tu cefn i'r eiddo (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 18/10/21 a derbyniwyd y disgrifiad diwygiedig ar 18/10/21). Gwynfa House, Yr Heol Fawr, Pentre'r Eglwys, Pontypridd.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio ei gais i'w Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am fod yr Aelodau o'r farn y byddai'r safle'n cael ei orddatblygu o gael ei droi'n 8 fflat, ac roedd ganddyn nhw bryderon ynglŷn â'r diffyg lleoedd parcio. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a hynny drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud

penderfyniad o'r fath.

156 **CAIS RHIF: 19/1082**

**Cais materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer Rhannau 3 a 4 Parc Llanilid (cyflwynwyd yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol (hybrid) 10/0845/34) i gynnwys 494 o unedau preswyl a seilwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a/neu wybodaeth ychwanegol/wedi'i a dderbyniwyd 24/06/21 (ffurflen gais wedi'i diweddaru, cynllun gosodiad y safle (rev 'K'), cynlluniau tirlunio a strategaeth, Thetford a chynlluniau uned DQR 1 gwely); 20/07/21 (cynllun gosodiad y safle (rev 'L') ac atodlen llety); 22/07/21 (datganiad dylunio trefol wedi'i ddiweddaru); 27/07/21 (Cynllun Symud wedi'i ddiweddaru); 03/08/21 (cynlluniau peirianneg ac Adroddiad Sŵn wedi'i ddiweddaru); 28/09/21 (cynlluniau wedi'u diweddaru i adlewyrchu mathau newydd o dai); 12/10/21 (cynlluniau tirwedd wedi'u diweddaru); 18/11/21 (cynllun gosodiad safle (rev 'N')) a 23/11/21 (cynlluniau gosodiad peirianyddol diwygiedig/diweddaru, strategaeth tirwedd a chynlluniau plannu tirwedd). Tir ar gyn safle glo brig a thir i'r gogledd o'r A473, Llanilid**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr, Ffyniant a Datblygu, yn ddarostyngedig i newid Amod 10 i gyfeirio at ganiatáu'r ramp mynediad sy'n arwain at y rheilffordd, yn ogystal gofynnodd yr Aelodau am anfon llythyr at Persimmon Homes Gorllewin Cymru ar ran y Pwyllgor i rannu ei farn ar yr angen am gyfran fwy o dai fforddiadwy ar y safle datblygu.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant rhagfarnllyd yn y cais uchod (Cofnod Rhif 141), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

157 **CAIS RHIF: 21/0256**

**Newid defnydd eiddo masnachol yn rhannol i eiddo preswyl er mwyn creu dau adeilad masnachol ac wyth fflat, ynghyd â gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Adroddiad Canlyniadau Llifogydd ar 05/07/2021, a derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 07/07/2021). 22-22A Stryd Caerdydd, Aberdâr (Adroddiad dilynol)**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio y cais yr adroddwyd arno’n wreiddiol i’r Pwyllgor ar 16 Medi 2021, pan ohiriwyd y cais gan yr Aelodau am ymweliad safle a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021. Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais a gafodd ei gyflwyno ddiwethaf i'r Pwyllgor ar 4 Tachwedd 2021, lle'r oedd yr Aelodau wedi gwrthod y cais, yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (Cofnod 109).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu am y rhesymau canlynol:

- Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at ddiffyg lle amwynder i ddeiliaid y fflatiau yn y dyfodol. O'r herwydd, byddai'r cais yn groes i Bolisi AW5 o Gynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**158 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 22/11/2021 a 03/12/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**